Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Papur y Bwrdd

27 Mawrth 2015

Teitl y Papur	Rhaglen Iechyd, Diogelwch a Lles
Cyfeirnod y Papur:	CNC B B 20.15
Noddwr y Papur: **Ysgrifennwyd y Papur gan:**	Ashleigh Dunn Andrew Johnson

Pwrpas y Papur:	Penderfyniad
Argymhelliad:	Bod y Bwrdd yn cytuno ar y papur ac yn mabwysiadu'r strategaeth, y fframwaith llywodraethu a'r dogfennau polisi ar gyfer CNC
Angen Penderfyniad:	Oes

Effaith:	**Effaith ar ein pobl** Bydd mabwysiadu'r rhaglen arfaethedig yn ein galluogi i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac yn gwella ein safonau iechyd, diogelwch a lles. **Effaith ar CNC** Bydd mabwysiadu'r rhaglen arfaethedig yn ein galluogi ni i sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol ac yn ein galluogi ni i dderbyn newidiadau mewn deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gan ragori ar y safonau lle bo'n bosibl.

Pwnc

1. Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014-2017 yn nodi ein pwrpas sef sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol. Mae ein pobl a sut maent yn gweithio yn allweddol i lwyddiant y cynllun corfforaethol ac rydym am lwyddo mewn ffordd ddiogel ac iach.

2. Rydym yn cynnal llawer o weithgareddau risg uchel sydd angen eu gwneud yn ddiogel. Er enghraifft, rydym yn cynaeafu coedwigoedd, yn gwneud gwaith rheolaidd mewn dŵr neu'n agos at ddŵr ac mae llawer o'n gweithwyr yn gweithio ar eu pen eu hunain neu o bell, yn defnyddio llifau cadwyn ac yn rheoli cyfleusterau peryglus. Dim ond rhai o'r gweithgareddau risg uchel mae ein staff yn eu gwneud yn rheolaidd yw'r rhain. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd ar ein tir a'n hasedau, er enghraifft ar yr ystâd goedwigoedd, cronfeydd natur a'n hasedau sydd mewn perygl o lifogydd.

3. Mae gennym staff hefyd sydd wedi profi llawer o newid yn y sefydliad felly mae materion lles a gwydnwch staff yn bwysig iawn i ni.

4. Mae ein Map Ffordd yn nodi ein gweledigaeth a beth fyddwn ni'n ei wneud i gyflawni hynny. Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiad yn ymwneud â sut y byddwn ni'n gwneud y gwaith ac yn golygu y byddwn ni'n gyfrifol ac yn atebol am ein holl weithredoedd, ac yn gweithredu i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel ac iach.

5. Dros y tair blynedd nesaf mae angen i ni atgyfnerthu a gwella'r ffordd rydym yn gwneud pethau drwy fod yn atebol am iechyd, diogelwch a lles a thrwy gael arweinwyr, rheolwyr a staff sy'n ymlafnio i greu gweithleoedd mwy diogel.

6. Mae'n amlwg bod angen strategaeth glir hirdymor ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Lles i gyflawni'r camau gweithredu a gwaith arall a nodwyd. Mae angen arweiniad gweladwy, cryf a pharhaus ar lefel y Bwrdd, y Tîm Gweithredol y Tîm Arwain a chan bob rheolwr llinell. Dylai'r ymrwymiad i Iechyd, Diogelwch a Lles fod yn ganolog i'n holl waith, nid yn flaenoriaeth yn unig.

Cefndir a'r wybodaeth ddiweddaraf

7. Ym mis Tachwedd 2014, aethom ati i nodi ein hymagwedd at Iechyd, Diogelwch a Lles yn CNC drwy fabwysiadu rhaglen glir i sicrhau'r gwelliant a fydd yn galluogi CNC i gyflawni ei uchelgais mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr. Roedd yn cynnwys pedair prif elfen:

- Datblygu **Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles** (Atodiad 1) gyda chynllun gwella 3 blynedd ategol
- Adolygu a diwygio ein **Fframwaith Llywodraethu** (Atodiad 2)
- Diwygio ein Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles (Atodiad 3)

8. Mae'r strategaeth, y fframwaith llywodraethu a'r dogfennau polisi yn cyd-fynd â'r papur eglurhaol hwn.

9. Mae'r **Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles** yn nodi ein huchelgais ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Lles. Mae'r ddogfen yn nodi ble rydym ar hyn o bryd ar sail yr arolwg hinsawdd staff diweddar a gwybodaeth arall e.e. adborth uniongyrchol gan staff, adborth o'r fforwm rhanbarthol ond yna'n nodi ein huchelgais ar gyfer symud ymlaen i ble rydym

am fod dros y 36 mis nesaf. Mae'r arolwg wedi darparu tystiolaeth linell sylfaen i ni y gallwn ei defnyddio i fonitro ein gwelliant dros amser ac i weithredu'r strategaeth a'r cynllun gwella. Yn gryno, roedd yr arolwg yn dangos ein bod yn perfformio yn gyffredin o gymharu â sefydliadau eraill ar hyn o bryd ac yn nodi meysydd i'w gwella yn gysylltiedig ag arwain, cyfathrebu, lles a rheoli risg.

10. Bydd ein trawsnewidiad yn cael ei adlewyrchu wrth i ni gyflawni sgorau 'cyfartaledd yr holl ddiwydiant' o leiaf gydag uchelgais o gyflawni sgorau sy'n gymharol â sefydliad sy'n cyflawni'n dda dros gyfnod o 3 blynedd. Byddwn yn gweithio gyda'r Labordy Iechyd a Diogelwch (HSL) i ddeall sgorau sefydliadau cymharol sy'n cyflawni'n dda ac unwaith y bydd hyn yn glir, byddwn yn mireinio ein dyheadau yn unol â hynny.

11. Yn ein hymateb i'n tystiolaeth mae'r ddogfen yna'n nodi 'sut rydym yn ymdrin ag iechyd, diogelwch a lles yma' drwy gyfres o themâu a datganiadau 'Byddwn yn'. Mae angen i ni gydnabod bod gan y cyrff blaenorol ddiwylliannau a ffyrdd gwahanol o weithio yn y maes hwn. Mae'r strategaeth yn gysylltiedig â gwerthoedd ac ymddygiad Map Ffordd CNC ond yn datblygu'r rhain ymhellach ar gyfer y gwelliannau diwylliannol a pherfformiad rydym am eu gweld ym maes iechyd, diogelwch a lles. Disgrifir y strategaeth mewn ffordd sy'n gytbwys o ran bod yn uniongyrchol ac ysgafn ond hefyd yn darparu digon o wybodaeth i staff. Datblygwyd y strategaeth gan ddefnyddio canllawiau HSL (sy'n asiantaeth i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) ar sut i gyflawni rhagoriaeth ddiwylliannol ddiogel – nawr ac yn y dyfodol.

12. Mae'r cynllun gwella 3 blynedd yn cefnogi'r broses o gyflawni'r strategaeth. Mae'r cynllun yn seiliedig ar y cynllun blwyddyn gwreiddiol ond ar ôl ymestyn ei gynnwys a'i amserlen mae'n cwmpasu anghenion ehangach y sefydliad ar faterion iechyd, diogelwch a lles. Mae eitemau'r cynllun gwella yn gysylltiedig â themâu yn y strategaeth i helpu i greu'r cysylltiadau. Bydd y cynllun hwn yn ddogfen esblygol wrth i eitemau gael eu cyflawni, wrth i gynnydd ddigwydd ac wrth i ni orfod gwneud newidiadau fel y bo'r angen e.e. newidiadau deddfwriaethol.

13. Y **Fframwaith Llywodraethu**. Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn dilyn cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar arferion gorau llywodraethu iechyd a diogelwch. Pwrpas y strwythur llywodraethu yw nodi trefniadau cyfarwyddo a rheoli sefydliadau ar lefel Cyfarwyddwyr o safbwynt gwneud penderfyniadau strategol gydag atebolrwydd llawn. Mae'r fframwaith yn egluro rôl y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles.

14. Mae hyn yn wahanol i'r cyfrifoldebau sydd gan reolwyr am iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd a'r angen i sicrhau ymgysylltu effeithiol gyda staff a rhanddeiliaid CNC ar iechyd, diogelwch a lles. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu â staff ar bob lefel yn y sefydliad i feithrin diwylliant iechyd, diogelwch a lles cryf a datblygu a rhoi'r Cynllun Gwella Iechyd, Diogelwch a Lles ar waith.

15. **Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles CNC.** Mae polisi ysgrifenedig yn ofyniad cyfreithiol i sefydliad o'n maint ni. Diweddarwyd y ddogfen bolisi wreiddiol i gynnwys mwy o bwyslais ar les ac ymddygiad, ac i ddiweddaru'r iaith a ddefnyddiwyd yn y ddogfen wreiddiol, e.e. rolau a chyfrifoldebau, sydd wedi newid ers y dyddiad breinio. Mae'r polisi, sy'n ategu'r Fframwaith Llywodraethu, yn nodi ein datganiad o fwriad yn Rhan 1 ac yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau holl staff CNC yn cynnwys aelodau'r Bwrdd yn Rhan 2.

16. Byddwn yn ystyried cyfuno'r fframwaith llywodraethu a'r polisi iechyd, diogelwch a lles cyffredinol gan nodi'n glir y cysylltiad rhwng polisi, llywodraethu a chyfrifoldebau bob dydd iechyd, diogelwch a lles mewn un ddogfen.

Risgiau

17. Bydd oedi estynedig i gyflwyno'r rhaglen arfaethedig yn effeithio ar ein gallu i ddatblygu'r diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac yn gwella ein safonau iechyd, diogelwch a lles ac yn creu'r perygl na fyddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Goblygiadau Ariannol

18. Mae goblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r cynnig hwn, yn bennaf drwy'r angen i ariannu hyfforddiant ar reoli diogel a diogelwch ymddygiad. Fodd bynnag, bydd y newid ffocws yn ein galluogi i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac yn gwella ein safonau iechyd, diogelwch a lles ac yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

19. Bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant yn cael ei gynnal gydag asesiad o'r math o hyfforddiant sydd ei angen yn dibynnu ar rôl a lefel y risg, ac ymarfer tendro.

Cyfathrebu

20. Datblygwyd y dogfennau hyn gan Andrew Johnson (ODPM) fel prif awdur gyda'r prif gyfranwyr Peter Garson (Gweithrediadau'r De), Clive Thomas (Llywodraethu) ac Ashleigh Dunn (ODPM).

21. Ymgynghorwyd â'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles, y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Cenedlaethol a'r Fforymau Rhanbarthol wrth lunio'r dogfennau ac mae eu sylwadau wedi'u hymgorffori lle bo'n briodol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

22. Paratowyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y dogfennau Strategaeth a Pholisi. Adolygwyd y cynlluniau gweithredu gwella ar gyfer asesiad a bydd y rhain yn cael eu cynnal adeg cyflawni camau gweithredu'r cynllun gwella.

Atodiadau:

1. Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles
2. Trefniadau Llywodraethu Iechyd, Diogelwch a Lles
3. Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles